

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanelltyd, Taicynhaeaf a Bontddu a gynhaliwyd yn
Neuadd Bentref Llanelltyd
Nos Fawrth, Ebrill 10, 2018 am 7.30 o'r gloch.**

Presennol: Cyngorwyr: Geraint Rowlands (Cadeirydd), John Hughes, Simon Evans, Carwyn Evans. Hefyd Peredur Jenkins, Henry M. Edwards.

1. Ymddiheuriadau: Gareth Ellis, Llinos Williams, Elfed ap Gomer, Gethin Williams.

2. Datgan diddordeb:

Nid oedd neb yn datgan diddordeb.

3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Mawrth 13, 2018

Cynigwyd ac eilwyd fod y cofnodion yn gywir.

4. Materion yn codi o'r cofnodion Mawrth 13, 2018

Eitem 4. Eitem 8.1. Llythyr (27/2/2018) oddi wrth Llywodraeth Cymru, trwy law Un Llais Cymru. Amgáu mae Adroddiad Draft Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol - Chwefror 2018. Mae'r adroddiad yn cynnwys cynigion a fyddai'n dod i rym ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/2019. Mae'r adroddiad ar gael ar wefan <http://gov.wales/irpwsub/home/publication-reports/58592459/?skip=1&lang=cy> Adran 13 sy'n berthnasol i gynghorau tref a chymuned.

Penderfynwyd trafod y mater yn ein cyfarfod nesaf.

Eitem 10.a. Derbyniwyd llythyr (27/3/2018) oddi wrth Uwch Peirianydd Traffic, Cyngor Gwynedd ynglŷn â chynllun cael llinellau melyn yn Llanelltyd. Amgáu mae plan yn dangos y cynllun. Mae'r Swyddog angen ein barn ar y cynllun iddo gynnal ymgynghoriad gyda thrigolion cyfagos. Derbyniodd yr aelodau copi o'r cynllun.

Penderfynwyd cefnogi'r cynllun.

Eitem 10.b. Llythyr ateb (26/3/2018) oddi wrth Priffyrdd yn rhoi gwybod:

1. mae gwaith am glirio gordyfiant sydd ar ochr ffordd A496 wrth Bontddu Hall am gael ei wneud.

2. mae'r arwydd 'Dim marciau ffordd' sydd ar gyffordd A470 /A496 Llanelltyd wedi cael ei symud ar 20/3/2018.

3. bydd tyllau ar ffordd wrth Nant y Garreg, Taicynhaeaf yn cael eu llenwi yn y flwyddyn newydd a cyn ymgymryd gwaith arwisgo'r ffordd yn ystod yr haf.

5. Materion Ariannol

- a. Llythyr (15/3/2018) oddi wrth ein Harchwilydd Mewnol gyda rhestr o ddogfennau bydd eu hangen at yr archwiliad.
- b. Bil (21/3/2018) am £225.00 oddi wrth Janet Edwards at daliad Ionawr, Chwefror a Mawrth i ofalu am doiledau Bontddu. Hefyd mae biliau am £16.99 (at bapur toiled) ac am £2.55 (at Bleach & Harpic). Cyfanswm: £244.54.

Penderfynwyd talu'r bil.

- c. Llythyr (21/3/2018) oddi wrth E.W. Owen a'i Chwmni yn cynnwys:

i. Copi o P60 am y flwyddyn yn diweddu 5/4/2018.

ii. Bil am £180 am gwblhau PAYE am y flwyddyn yn gorffen 5/4/2018 ac am gyflwyno cyflog misol i HMRC ar-lein i gydymffurfio â RTI a pharatoi Tystysgrif Diwedd y Flwyddyn P60. Mae'r gwaith ar gyfer cyflog y Clerc.

Penderfynwyd talu'r bil.

ch. Bil (20/3/2018) Treth Annomestig Genedlaethol ar gyfer 2018/19 tuag at Public Conveniencs Bontddu oddi wrth Cyngor Gwynedd. Mae'n cael ei dalu trwy Direct Debit. Taliad 12.04.2018 = £26.87, ac yna £23.00 y mis (am 9 mis). Cyfanswm yn £233.87 (llynedd y cyfanswm oedd £227.05).

d. Balans yn y banc ar 29 Mawrth, 2018: £7,693.95.

6. Mynwent Llanelltyd

a. Mae'r cyhoedd yn dal i adael sbwriel yn rhan isaf o'r fynwent er yr arwydd yn dangos digon clir ni chaniateir gadael sbwriel yn y fynwent.

Penderfynwyd i John Hughes gwneud ymoliadau i symud y bin i le mwy addas.

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Cais cynllunio NP5/65/352. Dymchwel estyniad unllawr presennol ac adeiladu estyniad deulawr yn ei le. Dwynant, Bontddu.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (21/3/2018).

b. Llythyr (15/3/2018) gyda dogfen Cynllun Datblygu Lleol adolygiad Eryri 2016 / 2031 – Newidiadau Ffocws. Bydd ymgynghoriad yn cymryd lle rhwng 16/3/2018 a 27/4/2018.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION EBRILL 10, 2018

c. Llythyr (21/3/2018) gyda gwahoddiad gan Cymorth Cynllunio Cymru i weithdy i helpu cyngorau cymuned a thref i ddeall sut y delir â cheisiadau cynllunio a sut allent ddylanwadu ar benderfyniadau. Bydd y digwyddiad yn Plas Tan y Bwlch, Maentwrog ar ddydd Iau, Ebrill 19, 2018 am 4.00yp i 7.15yh.

8. Gohebiaeth

a. Llythyr (19/3/2018) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod os mae cynigion i'w rhoi ar gyfer Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol 2018 maent eu hangen cyn Mai 31, 2018.

b. Llythyr (2/4/2018) oddi wrth Clwb Ffermwyr Ifanc Dolgellau yn diolch am y rhodd o £50.

c. Llythyr (4/4/2018) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi manylion pam bod Archwiliad Allanol yn bwysig. Mae'r gyfraith ei angen. Mae'n cael ei wneud pob blwyddyn gan BDO ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru i sicrhau cafodd y cyfrifon eu paratoi'n iawn, a bod y cyngor wedi sicrhau darbodaeth, effeithionrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio'r adnoddau cyhoeddus. Mae Archwiliad Allanol yn fwy pwysig y dyddiau hyn oherwydd newidiadau yn awdurdodau unedol yn ceisio gwneud arbedion yn eu cyllidebau trwy drosglwyddo gwasanaethau neu asedau i gynghorau cymuned a thref.

9. Adroddiad Cyng. Peredur Jenkins

a. Mae'n gyfnod anodd i Gyngor Gwynedd gyda'r arbedion sydd angen eu gwneud gan adranau'r Cyngor.

10. Materion Brys

Nid oedd materion brys.
